# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 15.04.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams (Cadeirydd); Peter Read, W. Gareth Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Euron Thomas (Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer cais Red Lion, Porthmadog) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ar gyfer Y Sandpiper, Stryd Fawr, Abersoch**
**Ymgeisydd:** Mr Gary Horseman, Mr Barry Singleton (Rheolwr yr Eiddo)

**Gwrthwynebwyr:** Mr Gwyn Thomas, Mrs Jean Thomas, Mrs Anne Cooke, Mr Michael Cooke, Mrs Mary Oliver, Dr Patricia Meyrick

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu), Heddwas Andy Vowell

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd R.H. Wyn Williams

**Ymddiheuriad:** Einir Wyn (Clarc Cyngor Cymuned Llanengan)

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO Y SANDPIPER, STRYD FAWR, ABERSOCH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog Sandpiper, Abersoch i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau cyflenwi alcohol o 11.00 hyd 01.00 yn ddyddiol, gyda'r eiddo'n cau am 01.30 yn ddyddiol. Ymgynghorwyd ar y cais yn ôl y drefn arferol a derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu, Gwasanaeth Cynllunio, yr aelod lleol a'r trigolion cyfagos. 'Roedd Cyngor Cymuned Llanengan yn gwrthwynebu'r cais.

Datganodd cynrychiolydd yr Heddlu bryder parthed yr oriau a'r gweithgareddau y gofynnir amdanynt gan gredu, os caniateir yr oriau y byddai'n cael adwaith anffafriol ar drigolion lleol gan danseilio'r amcan niwsans cyhoeddus. Mae tystiolaeth hanesyddol o anhrefn yng nghyffiniau'r eiddo hwn dan y rheolwyr blaenorol yn enwedig ar achlysuron pan ymestynwyd yr oriau dan Rybudd Digwyddiad Tros Dro. Cyfeiriodd at y ffaith bod amryw o'r cwsmeriaid sy'n gadael yr eiddo am 11.00pm, yn hytrach na mynd gartref, yn symud ymlaen i dafarndai eraill sy'n agor yn hwyrach, yn enwedig y dafarn tros y ffordd, sy'n agored tan 1.00am. Gellid dadlau felly, drwy adael yr eiddo i agor yn hwyrach, na fyddai'n arwain at gynnydd yn y problemau sy'n cael eu hachosi'n barod. Mewn perthynas â'r problemau a achoswyd gan bobl yn defnyddio'r ffordd fechan i'r traeth, nid oes tystiolaeth mai cwsmeriaid yr eiddo hwn ydynt gan ei fod yn cael defnydd cyson gan y cyhoedd.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd mewn llythyrau, adroddodd y gwrthwynebwyr –

- bod cryn bryder gan drigolion cyfagos a'r pentref hefyd, oherwydd bod lleoliad Y Sandpiper ar y Stryd Fawr, gyda phedwar tafarn arall o fewn 100 llath iddo.
- gan bod tafarndai mewn trefi/pentrefi cyfagos yn cau, mae llawer yn byderus iawn y bydd yna gynnydd yn y trafferthion fel yfed ar y stryd yn Abersoch ac agweddau sy'n wrth-gymdeithasol yn dilyn.
- bod amod 16 ar y caniatâd cynllunio dyddiedig 30 Mawrth 2000 yn datgan na chaniateir i'r defnydd o'r bwyty fod ar agor i gwsmeriaid tu allan i'r oriau 8.00am – 11.00pm.
- y dylid cael is-ddeddf i rwystro yfed ar y stryd yn Abersoch.
- bod problemau parcio yno gan nad oes maes parcio yn gysylltiedig â'r eiddo.
- y defnyddir gerddi rhai o'r tai gerllaw fel toiledau a bod achlysuron o falurio giatiau eiddo yn y pentref ar ôl i'r tafarndai gau.
- y byddai caniatau ymestyn yr oriau ar gyfer yr eiddo hwn yn gwaethygu'r sefyllfa parthed yfed yn hwyr yn y nos yn y pentref.

Wrth ymhelaethu ar ei gais, eglurodd yr ymgeisydd nad oedd yr ymddygiad gwrth-gymdeithasol a'r niwsans y cyfeiriwyd ato yn priodoli i'w gwsmeriaid. 'Roedd y sefyllfa bresennol yn anodd ac yn annheg cyn belled ag yr oedd ei fusnes yn y cwestiwn. 'Roedd rheidrwydd arno i gau am 11.00pm tra 'roedd ei gwsmeriaid wedyn yn mynd i dafarndai eraill, sy'n agored tan 1.00am. Eglurodd iddo gyflwyno system lle y gallai cwsmeriaid ffonio am dacsi o'r eiddo – hyn er mwyn arbed iddynt orfod aros allan. Cadarnhaodd mai'r unig gerddoriaeth a chwaraeeir yw ar y jiwcbocs, gyda chryfder y sŵn yn cael ei reoli o tu cefn i'r bar. Yn wyneb y pryderon a fynegwyd, byddai'n fodlon ymestyn yr oriau i werthu alcohol tan 12.30am gyda'r eiddo'n cau am 1.00am.

Gadawodd yr ymgeisydd, y Rheolwr Trwyddedu ac aelodau o'r cyhoedd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro Trwydded Eiddo'r Sandpiper Abersoch dan yr amodau canlynol:**

**i) caniatau gwyro'r oriau i werthu alcohol rhwng 11.00 a 00.00, dydd Llun i ddydd Sul.**

**ii) caniatau gwyro oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd rhwng 11.00 a 00.30, dydd Llun i ddydd Sul.**

**iii) bod goruchwylwyr ar y drws wedi eu cofrestru gyda ADD i fod ar ddyletswydd ar yr oll o'r gwyliau banc ac ar ddyddiau Gwener a Sadwrn yn ystod Gorffennaf ac Awst.**

**iv) dim cerddoriaeth uchel i'w chwarae, a dim cerddoriaeth i'w chwarae ar y patio o flaen yr eiddo na seinyddion i'w gosod yno.**

**v) bod rhybuddion i'w harddangos yn gofyn i'r cwsmeriaid adael yr eiddo'n ddistaw.**

**vi) ni chaniateir plant i'r eiddo ar ôl 19.00 ac ni chaniateir iddynt fod ar eu pennau eu hunain yn yr eiddo ar unrhyw adeg.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr ymgeisydd o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, ac i'w hysbysu o'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO Y RED LION, 13-15 HEOL NEWYDD, PORTHMADOG

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r cyfarfod</u>**

**Ar gyfer Y Red Lion, 13-15 Heol Newydd, Porthmadog**
**Ymgeisydd:** Mrs Catherine L. Gilmore, Mrs Carwen Roberts (gweithiwr yn yr eiddo), Mr Daniel Oscroft (Cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd), Mr Neil Jenkins (Scottish and Newcastle Ltd)

**Gwrthwynebwyr:** Mr Aeron Evans, Mrs Susan Evans

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu), Rhingyll Dewi Jones

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog Red Lion, 13-15 Heol Newydd, Porthmadog i wyro trwydded yr eiddo i ganiatau dramau, ffilmiau, chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, dawns a darparu bwyd poeth o 10.00 hyd 00.00, gyda'r eiddo'n cau i'r cyhoedd am 00.30.

Hysbysodd cynrychiolydd yr Heddlu bod wyth digwyddiad wedi ei adrodd iddynt ynglyn â'r eiddo uchod ers 1 Ionawr 2008. Gan bod y mwyafrif o'r digwyddiadau wedi digwydd cyn yr oriau y gofynnir amdanynt yn yr amrywiad, nid oes tystiolaeth ddigonol i wrthwynebu'r cais. Fodd bynnag, gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried gosod yr amodau canlynol ar y drwydded –
a) Bod o leiaf dau oruchwyliwr drysau wedi eu hawdurdodi gan yr ADD ar ddyletswydd ar nosweithiau pryd y cynhelir adloniant.
b) Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd a diodydd alcoholic na diodydd ysgafn wedi eu hagor allan o'r eiddo.
c) Dim mynediad i'r eiddo ar ôl 23.00.
Cyfeiriodd at lythyr a dderbyniwyd gan gyfreithiwr yr ymgeisydd yn gwrthwynebu gosod amod parthed cael goruchwylwyr ar y drysau pan gynhelir adloniant yn yr eiddo oherwydd na fyddai'n gost effeithiol. Yn ogystal cadarnhaodd na fyddai cwsmeriaid yn cael mynd â diodydd alcoholig na diodydd ysgafn wedi eu hagor allan drwy'r fynedfa blaen ac i'r stryd ond byddai angen defnyddio'r iard gefn ar gyfer hyn. Cadarnhaodd hefyd bod yr ymgeisydd yn fodlon gyda'r amod na chaniateir mynediad i'r eiddo ar ôl 23.00.

Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub unrhyw gynrychioliadau ar y cais ond awgrymwyd amodau.

Tynnwyd sylw gan Uwch Swyddog yr Amgylchedd y cafwyd hanes o gwynion yn ymwneud â sŵn adloniant o'r eiddo uchod a dengys archwiliad bod sŵn adloniant o'r dafarn i'w glywed yn glir mewn eiddo cyfagos ac mae cofnodion gan y cwynydd yn dangos bod yr adloniant yn creu problemau'n rheolaidd pan mae adloniant y cael ei gynnal yn y dafarn. I'r perwyl hwn, 'roedd o'r farn mai'r modd mwyaf effeithiol o leihau'r ardrawiad o sŵn adloniant ar gymdogion cyfagos tra'n parhau i ganiatau i'r dafarn gynnal adloniant yw drwy rheolaeth effeithiol o'r drwydded adloniant. Argymhellodd bod hyn yn cael ei gyflawni drwy osod amodau perthnasol ar y

drwydded, drwy gyfyngu ar yr oriau a ganiateir ar gyfer cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio hyd at 22.30, Dydd Sul hyd at Ddydd Iau a hyd at 23.00 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Wrth gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd mewn llythyrau, adroddodd y gwrthwynebwyr –

- bod lleoliad yr eiddo yn gryn broblem o safbwynt y gweithgareddau a'r oriau y gofynnir amdanynt.
- bod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithredu heb drwydded ar gyfer yr adloniant ac nid yw'r eiddo, oherwydd ei leoliad ynghanol tai, yn addas ar gyfer adloniant o'r fath gan bod y sŵn sy'n deillio o'r dafarn yn amharu ar fwynderau trigolion y tai o amgylch.
- bod ymddygiad rhai o'r cwsmeriaid yn peri pryder a phoendod i'r trigolion cyfagos, yn enwedig gyda rhai yn yfed ac yn ysmygu ar y palmant tu allan i'r drws ffrynt.

Wrth ymhelaethu ar y cais, tynnwyd sylw gan gyfreithiwr yr ymgeisydd at y ffaith nad oedd yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais na'r Uwch Swyddog yr Amgylchedd hyd yn oed ar ôl iddo gymryd i ystyriaeth y cwynion a dderbyniwyd. Gofynnodd i'r is-bwyllgor anwybyddu'r digwyddiadau a dynnwyd i sylw'r heddlu gan nad oeddynt yn benodol i'r cais gerbron. Cadarnhaodd bod yr ymgeisydd yn fodlon derbyn yr amodau a awgrymwyd gan yr Uwch Swyddog yr Amgylchedd, ond buasai'n hoffi i'r oriau ar gyfer cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio fod tan 23.00 ar ddyddiau Iau. Yn ogystal, mae'r ymgeisydd yn fodlon cau'r giat yng nghefn yr eiddo gan y bydd yn ofynnol wedyn i'r cwsmeriaid fynd i mewn ac allan o'r eiddo drwy'r drws ffrynt yn unig.

Gadawodd yr ymgeisydd, cyfreithiwr yr ymgeisydd, y Rheolwr Trwyddedu ac aelodau o'r cyhoedd y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried y pedwar egwyddor o fewn y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

Wrth ddod i benderfyniad, ystyriodd yr Is-bwyllgor y ffaith nad oedd gan yr heddlu a'r Uwch Swyddog yr Amgylchedd wrthwynebiad i'r cais, yn amodol i amodau, a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau. Fodd bynnag, cymerwyd i ystyriaeth hefyd cynrychioliadau'r trigolion lleol parthed y sŵn o'r eiddo a'i leoliad a oedd yn gwneud y pryderon hyn yn fwy perthnasol.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro Trwydded Eiddo Red Lion, Porthmadog dan yr amodau canlynol -**

**i) caniatau dangos dramau, ffilmiau, chwaraeon dan do, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a dawns ac unrhyw weithgaredd yn debyg i gerddoriaeth fyw ac wedi recordio neu ddawns, rhwng 10.00 a 22.30 awr, dydd Sul i ddydd Mercher a rhwng 10.00 a 23.00 awr, dydd Iau i dydd Sadwrn.**

- **ii)** **caniatau gwyro'r oriau i werthu alcohol rhwng 10.00 a 23.00 awr, dydd Llun i ddydd Sul.**
- **iii)** **caniatau gwyro oriau agor yr eiddo i'r cyhoedd rhwng 10.00 a 23.30 awr, dydd Llun i ddydd Sul.**
- **iv)** **bod yr amodau a awgrymwyd gan yr Uwch Swyddog yr Amgylchedd i'w hamgau i'r drwydded gydag amod ychwanegol bod y peiriant monitro sŵn i'w osod ar unwaith.**
- **v)** **bod yr amodau a awgrymwyd gan y Gwasanaeth Tân i'w hamgau i'r drwydded.**
- **vi)** **bod y giat yng nghefn yr eiddo i'w chadw ar glo bob amser fel na allai'r cwsmeriaid ei ddefnyddio i fynd i mewn nac allan o'r eiddo, a chaniateir iddynt fynd i fewn ac allan o'r eiddo drwy'r drws ffrynt yn unig.**
- **vii)** **ni chaniateir i'r cwsmeriaid sefyll tu allan i'r drws ffrynt i ysmygu nac yfed.**
- **viii)** **ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â diodydd alcoholig na diodydd ysgafn wedi eu hagor allan o'r eiddo.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr ymgeisydd o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, ac i'w hysbysu o'r hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.10pm